

Ar y dibyn bûm yn chwarae...

Tri darlun.
Tri phrofiad.
Tair dameg.

Y wefr

Sefyll ar ymyl craig uchel a themlo rhyfeddod yr ymdeimlad o fod bron iawn wedi fy ngwahanu o'r ddaear oeddwn i. 'Dych chi'n adnabod y profiad mi wn.

Islaw mai cwmp, ac mae grym disgyrchiant yn eich tynnu ato.

Neu beth am sefyll ar glogwyn uchel a chlywed y môr a'i donnau'n berwi'n wyllt ymhell, bell yn y dyfnderoedd.

Rhyngoch chi a'r dŵr islaw does dim byd ond cannoedd o droedfeddi o wacter.

Un llithriad ac fe fydd hi ar ben arnoch chi. Syllwch yn ormodol ar y cwmp ac fe gewch eich tynnu at y dibyn.

Dydy disgyrchiant a phen ysgafnod ddim yn ffrindiau i'w anwesu ar yr un pryd.

Ond fe gofiwn hefyd, flynyddoedd yn ddiweddarach bod yn yr awyr agored, ar ewin o ddaear, ar graig gul ar glogwyn. Ac fe gofiwn hefyd beth oedd teimlo'n fyw, yn rhydd. Roedd y gwynt yn ein gwallt a disgleirdeb y cyffro'n olau yn ein llygaid. Roedd y gorwel mor bell- a'n synhwyrâu'n pefrio gan ryfeddod amrywiaeth y profiad. Roedd yn un o'r adegau hynny pan roeddem yn FYW – a'n meddwl, corff ac ysbryd i gyd mewn cytgord.

Yr arswyd

Ond i eraill, yn yr union un sefyllfa, ochr yn ochr â'r wefr, o bwylllo, a syllu ar y cwmp neu'r tonnau, daw ofn i'w llethu. Tebyg yw'r hyn a welant. Ond o edrych ar y cwmp nid cyffro a ddaw i'w bron ond arswyd.

Welwch chi'r garreg wrth eich troed?

Codwch o'n ofalus a'i ollwng i'r don. Gwyliwch o'n syrthio.

*Oni wyddost, oni chlywaist?
Duw tragwyddol yw'r
ARGLWYDD a greodd
gyrrau'r ddaear; ni ddiffygia
ac ni flina, ac y mae ei ddeall
yn anchwiliadwy. Eseiā 40:28*



Nyth y Wennol, gerllaw Yaltin, y Crimea
Gan A.Savin (Wikimedia Commons- CC BY-SA 3.0,
<https://commons.wikimedia.org/w/index.php?curid=32273759>)

Mor rhydd y medrai hynny fod yn ni ein hunain.

Camwch yn ôl ar unwaith. Peidiwch ag edrych ar y cwmp. Mae'n ffordd rhy bell i lawr. Peidiwch â meddwl am y peth. Mae'n rhy ddychrynlyd.

Ac weithiau, fe wyddom oll, am yr ofn sydd mor ffyrnig fel ein bod yn fferru, yn methu â symud, sy'n ein gadael

mewn panig llwyr, yn rhy ofnus hyd yn oed i godi'n llais am gymorth ffrind.

Dyma'r ofn sy'n eich gyrru i'ch gliniau i gropian eich ffordd i ddiogelwch.

Y cwmp

Sbiwch rwan ar y cartref swanc yna ar ben y clogwyn. Gostiodd hwnna sawl ceiniog a dimau.

Ond pa obaith sydd i'r cartref oedd ar gopa'r bryn ond sydd bellach ar ddibyn y clogwyn? Erydodd tonnau cynddeiriog ac amser y graig ddiogel ansad. Mewn dyddiau a fu roedd y golygfeydd yn ddeniadol a pheryglon mor bell. Golygfeydd gogoneddus, lliwiau'r môr yn pefrio, y golau'n adlewyrchu'r hyn oedd oddi tano. Ond bellach mae'n ymddangos fel mai dim ond un storm arall fydd ei angen cyn bydd yr olygfa ddeniadol i mewn yn y tŷ oedd gynt y tu allan bellach o'i fewn.

Erstalwm roedd yn ddeniadol yn achos eiddigedd i eraill.

Ond newidiodd y tirlun.

Eisoes disgyrnodd gartrefi eraill gan erydiad y don.

Does dim yswiriant i'w gael ar gyfer digwyddiadau fel hyn.

Hwn fydd y nesaf i lithro dros y clogwyn i'r môr islaw.

Tri phrofiad.

Tri darlun.

Tair dameg.

(i'w barhau)

Beth sydd ar goll?

C o _ _ _ _ t Cariad
_ _ _ _ cefnogi Cymorth Cristnogol
_ _ _ _ bwriadu helpu pobl y Philipinas
_ _ _ _ mynd i chwarae fy rhan yn Apêl 2017

Beth sydd ar goll?

Llanwch y bylchau ac yna beth am fynd ati yn egniol i wireddu'r ymrwymadau. (Bydd yr ateb i'w weld yr wythnos nesaf).

